**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/KW/7636/16
Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Tachwedd 2016

Annwyl Lynne

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 10 Tachwedd i drafod cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer fy mhortffolio. Rwyf wedi cyflwyno ymatebion isod i'r materion a godwyd yn eich llythyr sy'n ymgorffori'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yng nghyfarfod y Pwyllgor.

**Cronfeydd Wrth Gwefn Ysgolion**

Croesawaf gefnogaeth y Pwyllgor mewn perthynas â sicrhau bod cyllidebau ysgolion yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl a bod gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol eu hysgol o ran y balansau.

Ar 31 Mawrth 2016 roedd 486 o ysgolion yng Nghymru â chronfeydd wrth gefn a oedd y tu hwnt i'r trothwyon ariannol a nodwyd yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, sy'n rhoi hawl i awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion i wario neu adfer arian dros ben. Y trothwyon ariannol yw £50,000 ar gyfer ysgol gynradd a £100,000 ar gyfer ysgol uwchradd neu ysgol arbennig. O'r 489 o ysgolion, roedd 412 yn ysgolion cynradd a 77 yn ysgolion uwchradd ac ysgolion canol. Ceir dadansoddiad yn ôl awdurdod lleol yn y tabl yn Atodiad 1.

Er mwyn sicrhau bod lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan ysgolion yn briodol ac yn gymesur, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddatblygu rhai opsiynau i ddiwygio Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, yn cynnwys y lefelau trothwy. Rydym yn cydnabod, ymhlith y 489 o ysgolion, fod amrywiaeth sylweddol o ran maint, ac wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer newid bydd angen i ni roi cyfrif am y ffaith bod y trothwyon cyfredol, i rai ysgolion, yn cyfateb i gyfran lai neu fwy o'r cyllid cyffredinol a ddirprwyir iddynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cynnig gofal plant**

Yn y Pwyllgor, cafwyd ymholiad ynghylch a oedd digon o gyllid refeniw ar gael i gyflawni'r Cyfnod Sylfaen yng ngoleuni cyflwyno'r cynnig gofal plant newydd. Fel yr amlinellais yn ein trafodaeth, mae'r cyllid refeniw i weithredu'r cynnig gofal plant ar gael o fewn cyllideb Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant a bydd hyn hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi newidiadau yn y broses o ddarparu'r Cyfnod Sylfaen. Ar gyfer 2017-2018, mae £10 miliwn o gyllid refeniw wedi cael ei ddyrannu o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Cymunedau a Phlant er mwyn helpu i ddatblygu'r cynnig, yn cynnwys y cynlluniau peilot i brofi elfennau o'r cynnig gofal plant.

O fewn fy mhortffolio, dyrannwyd cyfalaf ychwanegol o £20 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2018-19 i'w fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cefnogi'r cynnig a gaiff ei ddarparu ar y cyd â'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21$^{ain}$ Ganrif.

**Her Ysgolion Cymru**

Datblygwyd rhaglen Her Ysgolion Cymru fel ymyrraeth amser cyfyngedig i gyflymu gwelliannau yn ein hysgolion sy'n wynebu'r her fwyaf. Dyrannwyd cyllid canolog i'r rhaglen o'r Cronfeydd am dair blynedd, a oedd yn cynnwys £15 miliwn ar gyfer 2016-17. Rwyf wedi bod yn glir bod y cyllid canolog ar gyfer y rhaglen yn gorffen ar 31 Mawrth 2017. O ganlyniad i'r ffaith bod y rhaglen yn cael ei hariannu'n ganolog o'r Cronfeydd Wrth Gefn, roedd gofyniad i drosglwyddo'r cyllid yn ôl i'r Cronfeydd Wrth Gefn yn 2017-18. Fel y dywedais wrth y pwyllgor ac yn y siambr ar achlysuron blaenorol, rwy'n parhau i ystyried tystiolaeth sy'n dod i'r golwg a pherfformiad a chyrhaeddiad amrywiol ysgolion Llwybrau Llwyddiant. Byddaf yn parhau i ddiweddaru'r pwyllgor wrth i werthusiadau a gwybodaeth bellach ddod ar gael a sut y mae hynny'n llywio rhaglenni cyllid a gwella ysgolion.

**Grant Amddifadedd Disgyblion**

*Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar*

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am eglurhad ynghylch y rhesymeg dros dalu'r gyfradd £600 Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant oedran dosbarth Derbyn yn hytrach na chyfradd uwch ysgolion, sef £1,150. Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, rydym yn gweithio o dan amgylchiadau ariannol anodd a rhaid gwneud unrhyw benderfyniadau ar gyllid ar sail fforddiadwyedd a chynaliadwyedd. Byddaf yn parhau i ystyried yn ofalus unrhyw gynlluniau gwariant, gan gydbwyso blaenoriaethau ar draws fy mhortffolio. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi croesawu'r dull o roi mwy o bwyslais ar anghenion dysgwyr ifanc ac wedi cydnabod manteision mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu pan gânt eu nodi'n gyntaf, yn hytrach na cheisio gwneud hynny'n ddiweddarach. Mae tystiolaeth glir sy'n dangos mai ymyrraeth wedi'i thargedu'n dda cyn bod plentyn yn dechrau addysg ac yna'n gynnar yn ystod gyrfa ysgol plentyn yw'r ffordd fwyaf costeffeithiol o sicrhau manteision.

*Argaeledd y Grant Amddifadedd Disgyblion i Blant y Lluoedd Arfog*

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gyfamod y Lluoedd Arfog a Chymuned y Lluoedd Arfog wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu newydd, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, a gyhoeddwyd ar 20 Medi.

Yn unol â'm cadarnhad i'r Pwyllgor, os bydd grwpiau o blant sy'n wynebu anfantais o ran eu haddysg yng Nghymru byddwn, wrth gwrs, yn ystyried pa drefniadau y gellir eu rhoi ar waith

i chwalu'r rhwystrau i'w haddysg. Rwyf wedi bod yn trafod y materion hyn â'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac mae swyddogion yn cyfarfod â hwy ar 2 Rhagfyr i drafod y materion hyn ymhellach. Yn wir, byddaf yn lansio adnoddau digidol yn fuan i gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg a byddwn yn parhau i ystyried pa gefnogaeth bellach y gellir ei rhoi a sut y gallem gyflawni hynny.

*Plant sy'n Derbyn Gofal*

Dyma ail flwyddyn y trefniadau cyllido newydd lle mae consortia addysg yn gyfrifol am ddarparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r adborth a gawn yn awgrymu bod y dull gweithredu hwn yn arwain at wella dealltwriaeth o'r heriau y mae'r dysgwyr hyn yn eu hwynebu mewn addysg, ac yn enwedig lle mae'r rhain o ganlyniad i'w profiadau yn ystod plentyndod cynnar.

Er y gellir darparu cymorth penodol o hyd ar gyfer plant unigol sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu, bydd dulliau ysgolion cyfan sydd, er enghraifft, yn canolbwyntio ar drawma ac ymwybyddiaeth o ymlyniad, o fudd sylweddol i bob plentyn – ond byddant o fudd penodol i blant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi cael eu mabwysiadu. Mae hon yn ffordd effeithiol iawn o wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau prin, ac mae'r dull hwn yn parhau i gefnogi ysgolion a gofalwyr i roi cymorth gwell i blant unigol, gan gyfrannu at sefydlogrwydd yn yr ysgol ac yn y cartref.

Caiff cymorth i blant sydd wedi cael eu mabwysiadu ei dargedu yn yr un ffordd yn union â chymorth i blant sy'n derbyn gofal. Mae pob consortiwm wedi darparu cynllun gwariant amlinellol ar gyfer defnyddio'r cyllid a ddyrannwyd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon bydd angen iddynt ddangos sut y maent wedi defnyddio'r grant i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu. Bydd angen iddynt roi tystiolaeth hefyd o'r modd y mae'r cyllid wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad addysgol y dysgwyr hyn.

**Safonau Ysgolion**

Rwy'n fodlon rhannu adborth ffurfiol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) gyda'r Pwyllgor pan fydd ar gael. Fel yr amlinellais, rydym wedi datblygu cynigion ar gyfer y £100 miliwn (£20 miliwn yn 2017-18) ar sail ein blaenoriaethau cyffredin ar gyfer addysg ac rwy'n awyddus i ystyried adroddiad yr OECD cyn cadarnhau fy mhenderfyniadau. Credaf fod fy mlaenoriaethau'n adlewyrchu'r meysydd cywir i fuddsoddi ynddynt ond nodaf sylwadau'r Pwyllgor, a byddaf wrth gwrs yn adolygu cynnydd ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i sicrhau bod y cyllid hwn yn sicrhau canlyniadau.

*Cyllidebau ysgolion*

Disgwylir y bydd y gwariant ysgolion gros ar gyfer eleni yn cyfateb i £2.519 biliwn ac mae'n cynnwys cyllid o bob ffynhonnell. Roedd yr ymrwymiad i ddiogelu cyllidebau ysgolion ar 1% yn uwch na'r newid cyffredinol i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Refeniw Cymru yn ymrwymiad gan Raglen Lywodraethu tymor diwethaf y Cynulliad. Roedd yr ymrwymiad yn ffactor pwysig a gyfrannodd at gyfeirio buddsoddiad awdurdodau lleol at ysgolion. Ni ddylem anghofio mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyllid ysgolion, fel y nodir yn y gyfraith yng Nghymru.

Ni ddylid ystyried bod y £100 miliwn a ddyrannwyd dros dymor y Cynulliad hwn i godi safonau ysgolion yn disodli'r diogelwch 1%. Nod y cyllid hwn, yn debyg i'n holl ddiwygiadau, yw codi safonau a helpu i leihau'r blwch cyrhaeddiad. Caiff ei dargedu felly at y meysydd hynny. Rwy'n awyddus i dargedu'r cyllid hwn at y meysydd y credwn y byddant yn

cynhyrchu'r elw mwyaf ar ein buddsoddiad; sef llesiant, y cwricwlwm, asesu, addysgeg, arweinyddiaeth a'r system hunanwella.

Nid yw'r cyllid hwn yn bodoli ar wahân. Rwy'n awyddus i sicrhau bod cymaint o'r cyllid â phosibl yn mynd i'r rheng flaen, ond yr allwedd fydd creu'r amodau lle y gall y cyllid hwn wella safonau ac ychwanegu gwerth at y cyllid sy'n bodoli eisoes sy'n mynd i ysgolion.

**Meintiau dosbarthiadau babanod**

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am eglurder ynghylch p'un a yw'r gostyngiad o £1 miliwn yn y Grant Gwella Addysg yn gysylltiedig â'r buddsoddiad o £1 miliwn mewn meintiau dosbarthiadau. Gallaf gadarnhau bod y penderfyniadau yn rhai ar wahân ac yn rhan o'r adolygiad llinell wrth linell ehangach a'r broses o ailflaenoriaethu cyllidebau ar draws fy mhortffolio. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r amgylchiadau ariannol anodd yr ydym yn eu hwynebu yn ein gwaith. Byddaf yn parhau i ystyried yn ofalus fy nghynlluniau gwariant, gan gydbwyso blaenoriaethau ar draws y cyllidebau ar gyfer addysg o dan fy nghyfrifoldeb. Mae'n bwysig nodi ein bod yn parhau i sicrhau bod dros £133 miliwn ar gael drwy'r Grant Gwella Addysg yn 2017-18, y bydd y mwyafrif helaeth ohono yn mynd i ysgolion.

Gwyddom fod dosbarthiadau llai o faint yn cael yr effaith fwyaf ar y plant ieuengaf a'r rhai o gefndiroedd o amddifadedd. Dyma'r rheswm yr ydym yn targedu'r dosbarthiadau babanod mwyaf o ran maint yn gyntaf, gan roi blaenoriaeth i'r ysgolion hynny sydd â lefelau uchel o Brydau Ysgol Am Addim. Bydd y modd y defnyddir y cyllid yn dibynnu ar y materion penodol sy'n wynebu pob ysgol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia i sicrhau bod yr ysgolion cywir yn cael eu targedu. Bydd effeithiolrwydd y cyllid yn cael ei fesur yn ôl canlyniadau gwell i ddysgwyr yn y pen draw.

**Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB)**

*Addysg Uwch*

Byddaf yn cyflwyno fy mlaenoriaethau a'm disgwyliadau i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC) yn fy llythyr cylch gwaith yn y flwyddyn newydd. Bydd hyn yn cadarnhau fy mod yn disgwyl i CCAUC dargedu gwell cydweithredu a chysylltiadau strategol rhwng AU ac AB – cafodd hyn ei bwysleisio ymhellach pan gyhoeddais ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Diamond ar 22 Tachwedd.

Daeth yn amlwg fod y sector ôl-orfodol yn dod yn gynyddol amrywiol. Comisiynwyd Adolygiad Hazelkorn oherwydd bod hyn wedi arwain at bryderon ynghylch cymhlethdod cynyddol, dyblygu ac achosion o orgyffwrdd o ran y ffordd y caiff y sector ei fonitro a'i reoleiddio.

Mae Adroddiad yr Athro Hazelkorn yn rhoi cyfle gwych inni ystyried sut y gallwn sicrhau bod y system ôl-orfodol yn gweithio yn y ffordd orau posibl i'n dysgwyr. Rhaid inni feddwl am sut y gallwn gynllunio system sy'n cefnogi pob dysgwr, beth bynnag fo lefel ei addysg, i gyrraedd ei botensial ac meithrin sgiliau a fydd yn ei alluogi i ddatblygu a diwallu anghenion economi Cymru. Dull gweithredu'r Athro Hazelkorn yw ymdrin â'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol fel un sector cysylltiedig, gyda dysgwyr yn sail iddo, yn hytrach na sawl sector ar wahân.

Ar hyn o bryd rwy'n ystyried ei chynigion yn ofalus, oherwydd os bydd angen inni gael system newydd, bydd angen iddi gael ei hintegreiddio'n llawn gan ddarparu'r wybodaeth, y cyfleoedd a'r canlyniadau gorau i bob dysgwr, beth bynnag fo'i amgylchiadau neu ddyheadau. Mae'n hanfodol sicrhau bod unrhyw newidiadau er budd dysgwyr.

Gwnaf gyhoeddiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i Hazelkorn yn y flwyddyn newydd.

*Addysg Bellach*

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein polisi dysgu oedolion yn unol â'n gwaith o ddatblygu ein cynllun cyflogadwyedd sy'n anelu at gefnogi oedolion i gael cyflogaeth gynaliadwy, ac aros a datblygu ynddi. Mae'r cyllid ar gyfer dysgu rhan-amser a dysgu oedolion yn parhau i gyflwyno her ond rydym yn gweithio gyda'r sector i sicrhau ein bod yn cynnig cwricwlwm mor eang â phosibl; gan ddefnyddio'r holl gyllid sydd ar gael gennym. Rydym yn canolbwyntio ar roi cymorth i'r rhai sydd angen ein help fwyaf. Fel y cyfryw, mae ein blaenoriaethau ar gyfer cyllid yn cynnwys Sgiliau Hanfodol, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Llythrennedd Digidol.

Roeddech yn awyddus i ddeall sut y bydd y sector AB yn parhau i flaenoriaethu a diogelu darpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-19 oed. Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyllid ychwanegol gennym o £1.7m yn 2016/17 i gefnogi twf darpariaethau lefel 3 Llawn Amser mewn sefydliadau Addysg Bellach. Byddwn yn ystyried sut i gydnabod a chefnogi newidiadau yn lefelau darpariaeth 16-19 fel rhan o ddyraniadau'r dyfodol.

**Cymraeg i Oedolion**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth olaf y Gymraeg ym mis Mawrth 2017. Mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae swyddogion yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd ag awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau newydd i'w cyflwyno erbyn 20 Rhagfyr.

Ysgrifennodd y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg atoch ar 9 Tachwedd ynghylch cynnydd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn dilyn Ymchwiliad y Pwyllgor i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015. Rhoddodd y llythyr gofnod manwl o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor.

**Cyllid Cyfalaf**

Fel y cadarnhawyd yn fy mhapur tystiolaeth, ni fu unrhyw newid i'r llinell sylfaen 2017-18 ddiwygiedig ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, sef £100.8 miliwn ar gyfer 2017-18.

Fel y nodwyd mewn cyllidebau blaenorol a chyllidebau atodol yn ystod y flwyddyn, caiff unrhyw gyhoeddiadau cyfalaf ychwanegol o Lywodraeth y DU neu Gronfeydd eu dyrannu yn erbyn y blaenoriaethau ar draws Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2016-17, dyrannwyd £32 miliwn o gyfalaf ychwanegol o gronfeydd cyfalaf a gedwir yn ganolog i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg – cafodd £21.9 miliwn ei adlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17 a £10 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2016-17. Dyrannwyd y cyllid ar gyfer prosiectau addysg bellach penodol ac ymhlith y cymorth a ddarparwyd roedd offer sgiliau, offer TG a phrosiectau adeiladu cyfalaf ar raddfa fach. Roedd y cyllid yn afreolaidd, ar gyfer 2016-17 yn unig, felly dilëwyd £32 miliwn fel rhan o'r cysoni rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 a'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2017-18.

Gallaf gadarnhau bod trosglwyddo £43 miliwn i'r MEG Llywodraeth Leol o 2017-18 ymlaen yn adlewyrchu newid cyflwyniadol yn unig ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y swm o gyllid a gaiff ei ddyrannu neu sut y caiff ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol. Caiff Cyllid Cyfalaf

Cyffredinol (GCF) ei ddyrannu fel cyllid cyfalaf heb ei neilltuo, ac fe’i darperir i awdurdodau lleol fel rhan o setliad cyfalaf y Llywodraeth Leol. Er bod GCF heb ei neilltuo, yn hanesyddol bu rhaniad tybiannol ar draws portffolios perthnasol yr MEGs, yn cynnwys Addysg, at ddibenion cyflwyniadol. Fodd bynnag mae penderfyniadau ar ddyraniadau cyllid yn parhau i fod yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol lle caiff gwariant ei seilio ar flaenoriaethau yn ôl anghenion ac amgylchiadau lleol. Gellir defnyddio’r dyraniad hefyd i gefnogi eu cyfraniad 50% at y rhaglen. Bydd trosglwyddo GCF i’r MEG Llywodraeth Leol yn helpu i ddarparu mwy o dryloywder, yn darparu dull cyflwyno cyson rhwng setliadau refeniw a chyfalaf ac yn lleihau’r broses weinyddu gyfredol sy’n gysylltiedig â rheoli’r cyllid hwn.

Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn ddigonol i roi eglurhad ar y pwyntiau a godwyd gennych.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Atodiad 1**

**Nifer yr ysgolion oedd â chronfeydd y tu hwnt i'r lefelau a nodwyd yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 ar 31 Mawrth 2016 wedi'u dadansoddi yn ôl awdurdod.**

| | Ysgolion cynradd â chronfeydd y tu hwnt i £50k | Ysgolion uwchradd a chanol â chronfeydd y tu hwnt i £100k | Cyfanswm nifer yr ysgolion cynradd | Cyfanswm yr ysgolion uwchradd a chanol | Canran yr ysgolion cynradd â chronfeydd y tu hwnt i £50k | Canran yr ysgolion uwchradd a chanol â chronfeydd y tu hwnt i £100k |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 60 | 9 | 81 | 14 | 74% | 64% |
| Blaenau Gwent | 10 | 1 | 23 | 4 | 43% | 25% |
| Bro Morgannwg | 16 | 3 | 48 | 9 | 33% | 33% |
| Caerdydd | 35 | 5 | 97 | 19 | 36% | 26% |
| Caerffili | 18 | 3 | 75 | 14 | 24% | 21% |
| Casnewydd | 34 | 7 | 44 | 8 | 77% | 88% |
| Castell-nedd Port Talbot | 19 | 3 | 65 | 11 | 29% | 27% |
| Ceredigion | 9 | 4 | 47 | 7 | 19% | 57% |
| Conwy | 16 | 5 | 59 | 7 | 27% | 71% |
| Gwynedd | 14 | 5 | 98 | 14 | 14% | 36% |
| Merthyr Tudful | 5 | 0 | 22 | 4 | 23% | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11 | 2 | 50 | 9 | 22% | 22% |
| Powys | 20 | 4 | 84 | 12 | 24% | 33% |
| Rhondda Cynon Taf | 35 | 4 | 105 | 17 | 33% | 24% |
| Sir Benfro | 11 | 1 | 61 | 8 | 18% | 13% |
| Sir Ddinbych | 4 | 4 | 46 | 8 | 9% | 50% |
| Sir Fynwy | 15 | 2 | 31 | 4 | 48% | 50% |
| Sir Gaerfyrddin | 17 | 7 | 103 | 12 | 17% | 58% |
| Sir y Fflint | 23 | 0 | 67 | 12 | 34% | |
| Torfaen | 12 | 4 | 27 | 8 | 44% | 50% |
| Wrecsam | 14 | 2 | 61 | 9 | 23% | 22% |
| Ynys Môn | 14 | 2 | 47 | 5 | 30% | 40% |
| Cymru | **412** | **77** | **1,341** | **215** | **31%** | **36%** |